OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 551

# Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

## RHAN 3

## SEFYDLIADAU ÔL-16 ARBENNIG ANNIBYNNOL

**Gwasanaethau athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol**

**6.**—(1) Mae pob un o'r gweithgareddau a ganlyn yn wasanaethau athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol at ddibenion y Rhan hon—

(a) cynllunio a pharatoi addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr;

(b) cyflwyno addysg a hyfforddiant i ddysgwyr;

(c) asesu datblygiad a chynnydd dysgwyr;

(d) adrodd ar ddatblygiad a chynnydd dysgwyr;

(e) ymgymryd â rôl uwch-arweinydd o ran rheoli addysgu a dysgu yn y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

(2) Ym mharagraff (1)(b) mae "cyflwyno" yn cynnwys cyflwyno drwy ddulliau dysgu o bell neu ddulliau dysgu â chymorth cyfrifiadur.

**Y gofyniad i fod yn gofrestredig: athrawon sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol**

**7.** Ni chaiff person ddarparu gwasanaethau athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol mewn neu ar ran sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru (ac eithrio fel gwirfoddolwr) oni bai ei fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

**Y gofyniad i fod yn gofrestredig: gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol**

**8.**—(1) Ni chaiff person gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol mewn neu ar ran sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru (ac eithrio fel gwirfoddolwr) oni bai ei fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol i'r graddau y mae'r person hwnnw yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau fel rhan o rôl y person fel athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.